# Polisi Cyhoeddi Addasrwydd i Ymarfer
**Mai 2023**

## Cyflwyniad

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol gan Ddeddf Osteopathiaid 1993 (y Ddeddf) i reoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopathi. Amcan cyffredinol y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd. Mae'r Cyngor yn helpu cleifion sydd ag unrhyw bryderon ynghylch osteopath ac, os oes angen, mae ganddo'r pŵer i dynnu unrhyw osteopathiaid nad ydynt yn addas i ymarfer oddi ar y Gofrestr. Mae'r polisi hwn yn rhan o gyfres o ganllawiau a nodiadau ymarfer sy'n ymwneud â'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer.[1]

Mae'n bolisi cyffredinol a bydd eithriadau'n cael eu hystyried a gallant fod yn berthnasol.

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r wybodaeth a gyhoeddwn o dan y polisi hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau i gyhoeddi gwybodaeth addasrwydd i ymarfer, gan ddiogelu hawliau'r unigolion sy'n rhan o'i drafodion. Mae'r Cyngor yn gorff cyhoeddus sydd â dyletswyddau penodol o dan statud. Disgwylir iddo fod yn agored a thryloyw yn ei drafodion rheoleiddiol ac i gydymffurfio â'i ddeddfwriaeth ei hun a deddfwriaeth berthnasol arall fel Deddf Hawliau Dynol 1998. Dylai fod yn gyson a diduedd a dylai gydymffurfio ag amcanion y dyletswyddau sector cyhoeddus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

## Y gofyniad i gyhoeddi

Mae'r Cyngor yn gweithredu gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer agored a thryloyw a disgwylir iddo gyhoeddi gwybodaeth am addasrwydd osteopathiaid i ymarfer. Mae hyn yn caniatáu i gleifion, cyflogwyr a'r cyhoedd wybod a yw cofrestriad osteopath wedi'i gyfyngu mewn unrhyw ffordd neu a oes hanes o addasrwydd i ymarfer.

Fel corff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hyn yn sicrhau bod osteopathiaid yn derbyn gwrandawiad teg ac mae'n cynnwys y ddarpariaeth bod gwrandawiadau'n agored i'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf a Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol) (Gweithdrefn) 2000 yn ei gwneud yn bosibl i wrandawiadau fod yn agored i'r cyhoedd.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol gyhoeddi:

[1] Mae gwybodaeth am weithdrefnau addasrwydd i ymarfer y Cyngor ar gael yma: osteopathy.org.uk/concerns

- enwau'r unigolion cofrestredig y mae wedi ymchwilio cyhuddiadau yn eu herbyn[2] ac wedi penderfynu bod y cyhuddiadau'n ddilys
- natur y cyhuddiadau hynny
- y camau (os o gwbl) a gymerwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r unigolion cofrestredig a enwir

Lle bo'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad nad yw'r cyhuddiadau'n ddilys, mae adran 22(14) yn caniatáu iddo gynnwys datganiad o'r ffaith honno yn ei Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer (gweler isod) ar gyfer y flwyddyn dan sylw os bydd yr osteopath yn gwneud cais am hynny.

Mae [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#) yn creu hawl mynediad cyffredinol i'r holl fathau o wybodaeth a gofnodir a gedwir gan gyrff cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi cynllun cyhoeddi model sy'n egluro pa wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd gan y Cyngor. Y nod yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael yn rhwydd.

## Dulliau cyhoeddi

Bydd gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer yn cael ei chyhoeddi mewn tair prif ffordd:

- Gwefan y Cyngor osteopathy.org.uk – mae'n hawdd cael mynediad ati ac mae'n darparu gwybodaeth gyfredol, gan gynnwys Cofrestr y Cyngor, hysbysiadau ynghylch gwrandawiadau arfaethedig y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a phenderfyniadau addasrwydd i ymarfer.
- Cofrestr osteopathiaid ar-lein osteopathy.org.uk/register-search – bydd defnyddwyr yn gweld y cyfeiriadau at Orchmynion[3] penodol yn erbyn enw osteopath lle y bo'n berthnasol, a fydd yn cysylltu â'r penderfyniad addasrwydd i ymarfer penodol.
- Yr Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer[4] – bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ac unrhyw sancsiynau a osodwyd, sy'n darparu canllaw i osteopathiaid ar y safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer sy'n ofynnol i gynnal eu cofrestriad.

## Natur y wybodaeth i'w chyhoeddi gan gynnwys y cynnwys ac amserlenni

### 1. Y Pwyllgor Ymchwilio

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio'n ystyried achosion addasrwydd i ymarfer yn breifat a bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a oes achos i'r osteopath ei ateb. Gwneir y penderfyniadau hyn yn breifat ac ni fyddant yn cael eu cyhoeddi.

#### Gwrandawiadau Gorchymyn Interim

a. Hysbysiad
Cynhelir gwrandawiadau Gorchymyn Interim gerbron y Pwyllgor Ymchwilio ac yn breifat, ac felly ni fydd Hysbysiad o'r gwrandawiad hwn yn cael ei gyhoeddi.

---

[2] Rhestrir honiadau yn adran 20(1) Deddf Osteopathiaid 1993.
[3] Gallai hwn fod naill ai'n Orchymyn Amodau Ymarfer neu'n Orchymyn Atal Dros Dro
[4] Cyhoeddir o dan adran 22(13) o'r Ddeddf

b. Penderfyniad
   Lle y gwneir Gorchymyn Interim gan y Pwyllgor Ymchwilio, bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad gwneud y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn parhau ar wefan y Cyngor am hyd y Gorchymyn Interim.

Lle nad yw Gorchymyn Interim yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Ymchwilio, ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 2. Gorchmynion Atal Dros Dro Interim gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu'r Pwyllgor Iechyd

### Gwrandawiadau Gorchymyn Interim o dan Adran 24(1)(a) y Ddeddf

a. Hysbysiad
   Bydd Hysbysiad o wrandawiad Gorchymyn Interim y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol i wneud hynny. Bydd yr Hysbysiad yn cynnwys:
   i. enw, rhif cofrestru a lleoliad yr osteopath
   ii. dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad
   iii. datganiad yn egluro bod y gwrandawiad yn wrandawiad Gorchymyn Atal Dros Dro Interim.

   Ni fydd Hysbysiad o wrandawiad gerbron y Pwyllgor Iechyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae hyn oherwydd yr ymdrinnir â gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd yr osteopath yn unig yn gyfrinachol.

b. Penderfyniad
   Lle gwneir Gorchymyn Interim, bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor o fewn dau ddiwrnod gwaith. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi am hyd y Gorchymyn.

   Lle na wneir Gorchymyn Interim, ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei chyhoeddi, oni bai bod yr osteopath yn gofyn iddi gael ei chyhoeddi. Yn yr achos hwnnw, bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi am 28 niwrnod.

c. Hysbysiad ar y Gofrestr
   Lle bo osteopath yn destun Gorchymyn Interim, bydd nodyn yn nodi hyn yn ymddangos yn erbyn ei enw ar y Gofrestr. Bydd y nodyn hwn yn cysylltu â'r crynodeb o'r penderfyniad ac yn aros ar y Gofrestr am hyd y Gorchymyn.

### Gorchmynion Interim o dan adran 24(1)(b) y Ddeddf: atal dros dro neu dynnu enw osteopath oddi ar y Gofrestr gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Bydd Gorchmynion Interim o dan yr adran hon o'r Ddeddf yn cael eu gwneud ar ddiwedd y gwrandawiad hanfodol fel arfer. Bydd y penderfyniad a'r rhesymau dros y Gorchymyn felly'n cael eu cynnwys yn y penderfyniad hanfodol ac yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r polisi ar wrandawiadau o sylwedd a nodir isod.

**3. Gwrandawiadau a phenderfyniadau o sylwedd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol**

Cynhelir gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn gyhoeddus fel arfer a bydd yr Hysbysiad ar gyfer pob gwrandawiad a'r penderfyniad a wneir yn y gwrandawiadau hyn yn cael eu cyhoeddi fel a ganlyn:

a. Hysbysiad

Bydd Hysbysiad o'r gwrandawiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor o leiaf 28 niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad. Bydd yr Hysbysiad yn cynnwys:

i. enw, rhif cofrestru a lleoliad yr osteopath

ii. dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad

iii. manylion yr honiad

iv. y penderfyniad i'w wneud

Os yw'r honiad yn ddilys (wedi'i brofi), yna bydd penderfyniad llawn y Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor o fewn dau ddiwrnod gwaith. Mae'n bosibl y bydd elfennau o'r penderfyniad llawn yn cael eu tynnu o'r cyhoeddiad lle mae'n cynnwys gwybodaeth am iechyd yr osteopath, gwybodaeth sensitif arall neu dystiolaeth a glywyd yn breifat. Bydd y penderfyniad llawn yn aros ar wefan y Cyngor am y cyfnod perthnasol (a nodir yn y tabl isod) o ddyddiad penderfyniad y Pwyllgor.

Ar ôl i'r gwrandawiad terfynol ddod i ben, os bydd unigolyn cofrestredig wedi gwneud cais llwyddiannus i dynnu ei enw'n wirfoddol oddi ar y gofrestr, byddwn yn parhau i gyhoeddi penderfyniad llawn y Pwyllgor a'r sancsiwn am y cyfnod a nodir isod.

| **Math o sancsiwn** | **Hyd y cyhoeddiad** |
|---|---|
| Cerydd | Chwe mis |
| Gorchmynion Amodau Ymarfer | Hyd y Gorchymyn a blwyddyn |
| Atal Dros Dro | Hyd y Gorchymyn a dwy flynedd |
| Tynnu oddi ar y gofrestr | Pum mlynedd |

b. Hysbysiad ar y Gofrestr

Lle bo osteopath yn destun Cerydd, Amodau Gorchymyn Ymarfer neu Orchymyn Atal Dros Dro, bydd nodyn yn nodi hyn yn ymddangos yn erbyn ei enw ar y Gofrestr. Bydd y nodyn hwn yn cysylltu â phenderfyniad llawn y Pwyllgor a bydd yn aros ar y Gofrestr am hyd y Gorchymyn.

c. Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer

Bydd adroddiad ar yr achos yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer blynyddol perthnasol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ac a fydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- enw a rhif cofrestru'r osteopath
- yr honiad
- crynodeb o'r canfyddiadau
- y sancsiwn a osodwyd

Os nad yw'r honiadau'n ddilys (heb eu profi), bydd penderfyniad llawn y Pwyllgor yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn yr Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer os bydd yr osteopath yn gwneud cais am hynny. Yn absenoldeb cais penodol i gyhoeddi gan yr osteopath, ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei chyhoeddi.

Byddwn yn cyhoeddi'r Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer presennol ar ein gwefan ac mae adroddiadau'r pum mlynedd flaenorol wedi'u harchifo ar y wefan. Bydd fersiynau hŷn o'r adroddiad blynyddol yn cael eu harchifo'n fewnol a byddant ar gael ar gais.

**4. Gwrandawiadau a phenderfyniadau o sylwedd y Pwyllgor Iechyd**

Cynhelir gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Iechyd yn breifat, oni bai bod y Pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol cynnal gwrandawiad neu unrhyw ran ohono yn gyhoeddus. Ymdrinnir â'r wybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd yr osteopath yn unig yn gyfrinachol ac ni chaiff ei chyhoeddi.

a. Hysbysiad

Ni fydd Hysbysiad o wrandawiad gerbron y Pwyllgor Iechyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

b. Penderfyniad

Lle bo'r Pwyllgor Iechyd yn dod i'r casgliad bod addasrwydd i ymarfer yr osteopath wedi'i effeithio'n ddifrifol oherwydd ei gyflwr corfforol a/neu feddyliol, bydd fersiwn wedi'i golygu o'r penderfyniad yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd yn dangos unrhyw gyfyngiadau ar ymarfer yr osteopath. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi tra bo'r cyfyngiadau ar waith.

c. Hysbysiad ar y Gofrestr

Lle bo osteopath yn destun Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal Dros Dro, bydd nodyn yn nodi hyn yn ymddangos yn erbyn ei enw ar y Gofrestr. Bydd y nodyn hwn yn cysylltu â phenderfyniad y Pwyllgor Iechyd a gyhoeddwyd.

## Crynodeb

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi ac amserlen a lleoliad y cyhoeddiad.

| Gwybodaeth | Amserlen | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiadau Gorchymyn Interim** | | |
| Penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio i weithredu Gorchymyn Interim | Bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad ac am hyd y Gorchymyn | Gwefan<br>Cofrestr |
| Hysbysiad o wrandawiad Gorchymyn Interim y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (adran 24(1)(a) y Ddeddf) | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol a nes bod y gwrandawiad wedi'i gwblhau | Gwefan |
| Penderfyniad Ymddygiad Proffesiynol i weithredu Gorchymyn Interim | Bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad ac am hyd y Gorchymyn | Gwefan<br>Cofrestr |
| Penderfyniad y Pwyllgor Iechyd i weithredu Gorchymyn Interim | Bydd crynodeb o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad ac am hyd y Gorchymyn. | Gwefan<br>Cofrestr |
| **Gwrandawiadau o Sylwedd** | | |
| Hysbysiad o wrandawiad y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | O leiaf 28 niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad a hyd at ddiwedd y gwrandawiad | Gwefan |
| Penderfyniad y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol bod y cyhuddiad yn ddilys (wedi'i brofi) | Cyhoeddir o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad ar gyfer y cyfnod a ganlyn:<br>• Cerydd – chwe mis<br>• Amodau Ymarfer – hyd y Gorchymyn a blwyddyn<br>• Atal dros dro – hyd y Gorchymyn a dwy flynedd<br>• Tynnu oddi ar y gofrestr – pum mlynedd | Gwefan<br>Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer<br>Cofrestr[5] |
| Penderfyniad y Pwyllgor Iechyd bod addasrwydd osteopath i ymarfer wedi'i amharu'n ddifrifol | Cyhoeddir o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad a thra bo'r cyfyngiadau'n parhau i fod ar waith | Gwefan<br>Cofrestr |

[5] Os yw'r osteopath yn destun Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal Dros Dro

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau addasrwydd i ymarfer y Cyngor, ewch i'n gwefan yn: osteopathy.org.uk/concerns neu cysylltwch â thîm Rheoleiddio'r Cyngor yn: regulation@osteopathy.org.uk neu ar 020 7357 6655 x224

General Osteopathic Council
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU